moroedd glân
troi'r llanw ar blastig
clean seas
turn the tide on plastic

## Llywodraeth Cymru

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anodd i bob un ohonom yng Nghymru, ac fel sefydliad, roedd angen i ni ymateb i'r materion a oedd yn dod i'r amlwg oherwydd y pandemig Covid. Yn anffodus, cafodd llawer o ffrydiau gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn naill ai eu hoedi neu eu gohirio.

Wrth i ni ddod allan o'r cyfyngiadau cychwynnol, roedd yn dda gan Lywodraeth Cymru gyhoeddi y gallai gwirfoddolwyr fynd ati i lanhau traethau unwaith eto, er bod canllawiau newydd ar waith. Bu’r Prif Weinidog yn torchi llewys gyda gwaith glanhau traeth yng Nghaerdydd o dan arweiniad y Gymdeithas Cadwraeth Forol er mwyn cefnogi gwaith rhaglen Glanhau Traethau Prydain.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol #CaruTraethauCymru yn canolbwyntio ar sbwriel morol a sbwriel ar y tir mawr. Roedd hyn yn ymateb i lacio'r cyfyngiadau a'r mewnlifiad disgwyliedig o bobl i'n traethau ac ardaloedd awyr agored eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio opsiynau ar gyfer offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes, a thrwy Grŵp Cynghori Cymru ar y Môr a Physgodfeydd (WMFAG), sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i arwain y maes polisi hwn. Lluniwyd adroddiad yn gynnar yn 2020 sy'n gwella ein dealltwriaeth o'r defnydd o offer pysgota ac anghenion gwaredu yng Nghymru. Mae'r grŵp wrthi'n archwilio'r potensial i gysylltu â chynllun ailgylchu offer presennol a allai gefnogi'r bysgodfa Cragen Foch yng Nghymru.

https://businesswales.gov.wales/marineandfisheries/sites/marineandfisheries/files/deall-defnydd-offer-pysgota-masnachol-angen-gwaredu-nghymru.pdf

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu Partneriaeth Moroedd Glân Cymru â meysydd polisi eraill fel gwastraff a'r economi gylchol, mathau o blastig a'r Grŵp Cynghori ar Sbwriel. Gwahoddwyd swyddogion i gyflwyno'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar Blastig Untro mewn gweithdy, ac maent wedi'u gwahodd i fynychu gweithdy dilynol. https://llyw.cymru/lleihau-plastig-untro-yng-nghymru

**(Ymchwil a ariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop) Cadwch Gymru'n Daclus**

Mae cynnydd yn cael ei wneud o safbwynt yr ochr addysgol mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Cadwraeth Forol. Rydym yn gweithio ar fformat a chynnwys hyfforddiant, negeseuon ac adnoddau athrawon ar-lein, gan gynnwys amrywiaeth o gynlluniau gwersi. Mae'r astudiaeth ymchwil ddesg wedi'i chwblhau ac mae wedi'i hatodi.

PDF
DTR Secondary School Resource Inv

Oherwydd sefyllfa barhaus Covid-19, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar lunio sesiynau hyfforddi athrawon ar-lein ac adnoddau i'w hategu (mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Cadwraeth Forol) gan ragweld na fyddwn yn gallu mynd i mewn i ysgolion yn ystod y flwyddyn ysgol hon o bosibl. Gallem ystyried mynd i mewn i ysgolion naill ai tua diwedd tymor yr Haf os yw'n bosibl neu aros tan dymor yr Hydref, ond rydym eisiau canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth a chynlluniau gwersi i athrawon er mwyn ennyn diddordeb eu myfyrwyr yn uniongyrchol os na allwn fynychu ysgolion. Hefyd, bydd yn gyfle i ymgysylltu â mwy o ysgolion nag a ragwelwyd yn wreiddiol – mae ein tîm Addysg yn cynnal nifer o sesiynau hyfforddi athrawon sy'n seiliedig ar bynciau, sydd wedi bod yn hynod boblogaidd. Felly, rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu sesiynau rhyngweithiol/addysgiadol i gynorthwyo athrawon i ddarparu gweithgareddau yn ymwneud â sbwriel morol ac annog newid ymddygiad ymhlith myfyrwyr. Mae Cadwch Gymru'n Daclus newydd gyflogi arbenigwr ysgolion uwchradd yn y Tîm Addysg sydd i fod i ddechrau yn ei swydd y mis hwn, felly hoffem fanteisio ar y cyfle i gael yr adnoddau wedi eu hadolygu ganddynt cyn mynd ati i'w cyfieithu a'u dylunio. Yn anffodus, mae hyn wedi effeithio rhywfaint ar amserlen y gweithgarwch, ond bydd yr holl weithgarwch wedi'i gwblhau erbyn diwedd cyfnod y prosiect.

## Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru

Mae Covid a Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu'n sylweddol ar ein gwaith drwy beidio â chaniatáu i'r rhan fwyaf ohonom deithio er mwyn pysgota. O ganlyniad, mae lefel y sbwriel gan y rhai nad ydynt yn ufuddhau i reolau beth bynnag wedi cynyddu'n enfawr.

## Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth

Mae'r ymgyrch Glanhau Traethau wrthi'n cael ei datblygu a'i chynllunio, ac mae dan embargo tan fis Mawrth. Bydd Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth yn rhannu hyn gyda'r grŵp maes o law.

**Newidiadau Cadarnhaol:**

Y newid mwyaf a wynebwyd gennym oherwydd COVID-19 oedd methu rhyngweithio wyneb yn wyneb â phobl eraill yn unol â'r drefn arferol. Erbyn diwedd mis Mawrth, bu'n rhaid gohirio ein holl ymdrechion i ysgogi cymunedau torfol. Oherwydd y cyfyngiadau symud, bu'n rhaid i ni ohirio digwyddiadau fel Glanhau Traethau yn y Gwanwyn, ein Digwyddiadau Hyfforddi Cynrychiolwyr Rhanbarthol Cenedlaethol, Boardmasters, Taith Ranbarthol a llawer o weithgareddau eraill. Fodd bynnag, creodd hyn gyfle unigryw i ni ddigido ein gwaith ymgyrchu a'n gwaith cyffredinol a rhoi mwy o bwyslais ar weithredoedd unigol (Glannau Traethau ar Raddfa Fach, er enghraifft).

## Sut mae COVID wedi effeithio ar y gwaith

Yn ystod misoedd Ebrill a Mai cynhaliwyd ein hymgyrch #ReturnToOffender gyntaf. Gofynnwyd i'r cyhoedd dynnu lluniau o lygredd plastig a deunydd pacio wedi'u brandio pan oeddent allan yn ymarfer corff yn unol â'r rheolau, cyn lanlwytho'r lluniau i Twitter gyda neges dempled i'r cwmnïau sy'n gyfrifol. Bu'r ymgyrch hon yn hynod lwyddiannus gan ymgysylltu â 600,000 o bobl ledled y cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd mai dim ond 12 brand a oedd yn gyfrifol am hanner y deunydd pacio a ganfuwyd. Mae adroddiad llawn ar gael yma.

Yn dilyn llwyddiant yr ymgyrch hon, ac awydd amlwg y cyhoedd i gymryd rhan, lansiwyd ymgyrch #PostPandemicPollution gyda'r nod o dargedu'r methiannau systemig gan gynnwys diffyg ailgylchu a biniau. Unwaith eto, roedd yr ymgyrch hon yn llwyddiannus a chafwyd sawl 'buddugoliaeth' gan gynnwys gosod mwy o finiau ym mharciau Llundain yn dilyn gwaith ymgyrchu gan Gynrychiolydd; cynyddu cylch gwaith Swyddogion Gorfodi Lleihau Sbwriel Brighton, unwaith eto diolch i weithredoedd Cynrychiolydd, a chamau breision ymlaen o safbwynt microplastigau yn afonydd Southampton.

Buom hefyd yn dathlu'r gwaharddiad ar wellt plastig, troyddion diodydd a ffyn cotwm ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu.

Roedd ein gwaith ymgyrchu digidol yn llwyddiannus iawn o safbwynt Ansawdd Dŵr gan gynnwys cyflwyno Deiseb #EndSewagePollution â thros 44,600 o lofnodion arni, cyhoeddi Adroddiad Ansawdd Dŵr eleni a'n cyfraniad at y Bil Carthffosiaeth (Dyfroedd Mewndirol). Diolch i'r holl weithgarwch hwn, a'r ffaith ein bod wedi recriwtio Swyddog Polisi, rydym wedi cynyddu'r cysylltiad rhwng ein cymunedau a'u Haelodau Seneddol gyda galwadau wedi'u targedu i weithredu.

Mae addysg wedi bod ar ei hennill wrth 'fynd yn ddigidol' hefyd, ac mae'r gyfres Digital Ocean School yn boblogaidd iawn. Roedd dros 10,000 o ddisgyblion ac athrawon wedi cymryd rhan yn ein digwyddiad diweddar, Gwasanaeth Pŵer Disgyblion.

Hefyd, roedd cyfle yn 2020 i ni osod y sylfeini er mwyn cynllunio ar gyfer gwaith ymgyrchu mwy effeithiol yn 2021, gan gynnwys ymgyrchu ym meysydd Cefnforoedd a'r Hinsawdd ac Adfer Cefnforoedd.

**Newidiadau Negyddol:**

Mae Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth yn ymfalchïo yn ein perthynas bersonol â'n cymunedau – boed yn Arweinwyr Cymunedol Di-blastig, Cynrychiolwyr Rhanbarthol, Arweinwyr Glanhau, Aelodau neu bobl sy'n ein cefnogi yn ehangach. Yn anffodus, oherwydd y pandemig, nid ydym wedi gallu cynnal y digwyddiadau wyneb yn wyneb sy'n sylfaen i'r berthynas hon. Rydym wedi addasu i'r graddau posibl, ac mae'r Tîm Cymunedol a Digwyddiadau wedi cynnal sawl Cyfres Hyfforddiant Zoom o tua 15 sesiwn, ac mae sesiynau tebyg wedi'u cynnal ar gyfer Cymunedau Di-blastig. Fodd bynnag, mae'r sesiynau hyn yn wahanol i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb.

O safbwynt ehangach, roedd yr effaith andwyol ar yr amgylchedd yn sgil dileu'r cyfyngiadau symud yn yr haf yn bwynt negyddol enfawr. Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, mae'n ymddangos bod yr amgylchedd yn gwella ei hun. Wrth gael seibiant byr, roedd traethau, afonydd a strydoedd yn rhydd o lygredd plastig a deunydd pacio, roedd pobl yn gyrru llai ac roeddent yn gwneud penderfyniadau ymwybodol i gael llai o effaith ar yr amgylchedd. Mae'n ymddangos bod hyn wedi dod i ben yn ddisymwth wrth i'n 'rhyddid' ddychwelyd.

**Gwersi:**

Rydym wedi dysgu llawer yn ystod 2020, yn enwedig am gryfder ein cymunedau a'r angen i'r cyhoedd wneud mwy i ddiogelu'r amgylchedd. Wrth symud ymlaen, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ymgyrchu a hyfforddi digidol yn ogystal â chorfforol, ond rydym yn cynllunio blwyddyn fawr o gamau gweithredu wyneb yn wyneb ar gyfer 2021 hefyd.

**2021:**

Byddwn yn ymgysylltu, yn uwchsgilio, yn cynnwys ac yn ysgogi ein cymunedau a'r cyhoedd yn ehangach mewn ffyrdd gwell a mwy effeithiol er mwyn gwireddu ein dyheadau 10 mlynedd:

- Llygredd Plastig - Rhoi terfyn ar lygredd plastig ar draethau'r DU erbyn 2030
- Ansawdd Dŵr - Rhoi terfyn ar ryddhau carthion i ddyfroedd ymdrochi'r DU erbyn 2030
- Y Cefnfor a'r Hinsawdd – Y DU i fod yn Sero Net erbyn 2030
- Adfer Cefnforoedd - 30% o'r cefnfor a holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU i gael lefel uchel o ddiogelwch erbyn 2030.

## Partneriaeth Aber Afon Hafren

**Hyrwyddo gwaith partneriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil er mwyn mynd i'r afael â sbwriel morol ledled Aber Afon Hafren. Sicrhau bod y wyddoniaeth orau ym maes sbwriel morol ar gael i bartneriaid a grwpiau perthnasol ledled Aber Afon Hafren.**

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, nid oeddem yn gallu cynnal ein digwyddiad Glanhau Traethau Aber Afon Hafren yn 2020, sy'n cael ei gynnal fel arfer ym mis Medi ar yr un pryd â Glanhau Moroedd Cymru a Glanhau Traethau Prydain. Byddai'r digwyddiad hwn wedi bod yn gyfle i gasglu data ar sbwriel morol ledled Aber Afon Hafren drwy hwyluso digwyddiadau glanhau traethau dros benwythnos ym mis Medi. Rydym yn gobeithio y bydd modd i ni gynnal y digwyddiad yn 2021 ac rydym yn parhau i gynllunio ar ei gyfer fel digwyddiad blynyddol, gan ategu ein dealltwriaeth o sbwriel morol yn yr aber.

**Parhau i hyrwyddo dull seiliedig ar gamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â sbwriel morol ledled yr Aber.**

O ganlyniad i weithio gartref, cyfyngiadau teithio a chadw pellter cymdeithasol, bu'n rhaid i ni ganslo digwyddiadau wyneb yn wyneb a digwyddiadau glanhau traethau sy'n cael eu cynnal fel rhan o'n prosiect blaenllaw *Litter Free Coast* a *Sea Somerset*.

Fodd bynnag, rydym wedi addasu'n dda, gan symud ein dulliau gweithredu ar-lein er mwyn datblygu ymgyrchoedd ymatebol i fynd i'r afael â'r holl sbwriel ar ein traethau lleol (gan gynnwys cyfarpar diogelu personol) yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae ymgyrchoedd wedi cynnwys themâu megis #takeithome a #binthebeast, gan annog ein cymunedau i fod yn ymwybodol o sut maent yn defnyddio ac yn gwaredu amrywiaeth o ddeunyddiau o dan gyfyngiadau amrywiol. Byddwn yn parhau i ymateb i'r amgylchiadau newidiol sy'n wynebu pawb ar hyn o bryd, ac yn gobeithio ailddechrau digwyddiadau wyneb yn wyneb rywbryd yn 2021 pan fydd yn ddiogel ac o fewn canllawiau'r llywodraeth i ni wneud hynny.

Rydym wedi datblygu asesiad risg a chanllawiau COVID ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n dymuno glanhau traethau wrth gadw pellter cymdeithasol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i grwpiau glanhau traethau ledled yr aber.

**Mabwysiadu dull dalgylch i arfordir o ymdrin â sbwriel morol ledled yr Aber drwy weithio gyda grwpiau casglu sbwriel ar yr arfordir a'r mewndir.**

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu dalgylch i arfordir, gan weithio gyda grwpiau casglu sbwriel mewndirol ledled yr Aber, gan gynnwys prosiect newydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwlad yr Haf, *Water Guardians*.

Mae SEP yn parhau i gyfathrebu drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, e-gylchlythyron misol ac e-bost, gan rannu gwybodaeth ag aelodau a phobl eraill â diddordeb am y gwaith sy'n mynd rhagddo o amgylch yr aber, er gwaethaf y pandemig Covid-19.

**Diweddariadau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid**

Mae ein prosiect blaenllaw, *Litter Free Coast* a *Sea Somerset* wedi derbyn cyllid am 5 mlynedd gan *Wessex Water*. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i ehangu cyrhaeddiad y prosiectau i 5 safle newydd ledled Gorllewin Gwlad yr Haf. Byddwn yn parhau i rannu arferion gorau, negeseuon allweddol ac ymgyrchoedd sydd wedi'u datblygu drwy'r prosiect hwn gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yng Nghymru drwy Bartneriaeth Aber Afon Hafren, ac rydym yn gobeithio archwilio cyfleoedd i ddatblygu momentwm y prosiect ar ochr Cymru i'r aber.

## Fforwm Arfordir Sir Benfro

**Arwain drwy esiampl fel tîm, drwy hyrwyddo atebion cynaliadwy ymarferol e.e. poteli dŵr a chwpanau coffi amldro mewn cyfarfodydd allanol, gan annog newid ymddygiad mewn pobl eraill.**

Er bod pob un ohonom yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir ar-lein yn unig ar hyn o bryd, byddwn yn parhau â'r addewid hwn wrth gyfarfod wyneb

yn wyneb, gan fynd ati i osgoi defnyddio mathau o blastig untro yn ein galwadau fideo. Enghraifft o nwyddau 'mwy cynaliadwy' yw ein rhodd brand di-blastig = gwydr a chwrw lleol Gogledd Cymru sy'n cael eu dosbarthu i'n cyfranogwyr fel rhan o'n digwyddiad rhwydweithio Ynni Môr Cymru.

**Sicrhau bod holl ddigwyddiadau Fforwm Arfordir Sir Benfro yn osgoi defnyddio plastig untro.**

**Hyrwyddo camau gweithredu yn ymwneud ag arferion amgylcheddol gorau gan gyflenwyr, drwy brosesau caffael.**

**Parhau â'n gwaith gyda rhanddeiliaid mewn cysylltiad ag ansawdd dŵr a maetholion yn nalgylch afonydd Cleddau gan helpu i sicrhau statws amgylcheddol da ar gyfer ACA Morol Sir Benfro.**

Mae ein prosiect BRICs – Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau yn parhau ac rydym wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid fel Dŵr Cymru, ffermwyr a thirfeddianwyr, diwydiant, CNC a Llywodraeth Cymru

**Parhau i chwarae rhan weithredol mewn grwpiau rhanddeiliaid a pholisi morol perthnasol, gan gyfrannu at allbynnau Moroedd Glân.**

Mae'r grwpiau gorchwyl a gorffen pwysig rydym yn eu mynychu yn cynnwys: Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG), MCF T&F, Partneriaeth Moroedd Glân Cymru; Adferiad Gwyrdd; Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllun Morol Cymru; yn ogystal â chyfarfodydd, cynadleddau a chyfarfodydd rhwydwaith Datganiadau Ardal CNC, a chyfarfodydd grŵp Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Annog ysgolion rydym yn gweithio gyda nhw i weithredu ym meysydd moroedd glân a phlastigau morol.**

Er bod yn rhaid i'n gwaith gydag ysgolion fod yn waith rhithwir ar hyn o bryd, mae ein hymgysylltiad yn cynnwys dysgu am foroedd glân a phlastigau morol. Mae adnoddau ar gael yma:
https://www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/education/

**Cynorthwyo a chydweithio gydag elusennau eraill sy'n gwneud gwaith yn ymwneud â blaenoriaethau Moroedd Glân e.e. NARC, Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth.**

Rydym yn parhau i gefnogi elusennau sy'n gweithio ar flaenoriaethau Moroedd Glân gan gynnwys SAS – Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth, ac rydym yn cynnig cymorth a chyngor i grwpiau fel Câr y Môr, Seatrust ac eraill lle bynnag y bo modd.

## Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched - Cymru

**Ymgyrch Rhoi Terfyn ar Gawl Plastig**

Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd ar gyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol, mae'r Ffederasiwn wedi creu pecyn cymorth ffasiwn cyflym 'gweithio gartref' sy'n cynnwys prosiectau Rhoi Terfyn ar Gawl Plastig i'w cwblhau gan aelodau gartref. Bydd y Ffederasiwn yn rhyddhau'r pecyn cymorth llawn ar gyfer digwyddiadau cymunedol pan fydd y mesurau iechyd cyhoeddus yn caniatáu cyfarfodydd cyhoeddus.

**Byd natur a mannau gwyrdd**

Gydol yr argyfwng, mae pwysigrwydd byd natur a'r amgylchedd i iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl wedi dod yn fwy amlwg nag erioed. Mae mannau gwyrdd wedi bod yn achubiaeth i bobl sy'n ymdopi ag effaith y cyfyngiadau symud.

Mewn arolwg o aelodau'r Ffederasiwn yn ymwneud ag effaith Covid-19, dywedodd 57% o ymatebwyr o Gymru eu bod wedi sylwi ar aer glanach yn yr awyr agored, a dywedodd 65% eu bod wedi sylwi mwy ar fywyd gwyllt. Dywedodd 51 y cant o'r aelodau y dylem 'werthfawrogi a diogelu ein mannau gwyrdd lleol i raddau mwy'. Eto, yn ystod yr argyfwng, rydym wedi parhau i weld sbwriel yn effeithio ar ein hamgylchedd lleol.

**#PlasticFreeJuly**

Oherwydd Covid-19, mae'r Ffederasiwn wedi  bod yn gwneud mwy o waith ymgyrchu digidol. Lluniodd timau Materion Cyhoeddus ac Aelodaeth y Ffederasiwn rai awgrymiadau ar gyfer #PlasticFreeJuly gan fynd ati i'w hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Dŵr Cymru

Yn syml iawn, daeth ein hymgysylltiad rheng flaen i ben i raddau helaeth oherwydd COVID ac mae'r sefyllfa hon yn parhau ar hyn o bryd. Ni ddylem roi ein cydweithwyr mewn unrhyw berygl ychwanegol trwy gael cyswllt wyneb yn wyneb ac ati, felly bydd y sefyllfa hon yn parhau hyd nes y byddwn wedi dechrau dod allan o'r pandemig yn llawn.

**Glanhau Traethau** – fe wnaethom gynllunio her ranbarthol i lanhau traethau, ond bu'n rhaid rhoi'r gorau iddi pan ddaeth cyfyngiadau symud lleol i rym. Yn realistig, ni fyddwn hyd yn oed yn ystyried hyn tan y Gwanwyn/Haf.

**Stopio'r Bloc**– gweler y dull amgaeedig a ddefnyddiwyd ar gyfer ein hymgyrchoedd y llynedd. Roeddent yn canolbwyntio ar y cyfryngau ar-lein a safleoedd cymdeithasol ac roedd rhai hysbysebion radio a theledu hefyd. Bu’n ffordd lwyddiannus o gyrraedd y cyhoedd.

IEAP meeting 14.10.pptx

**Archwiliadau masnachol** – Fe wnaethom ddisodli archwiliadau wyneb yn wyneb â galwadau fideo i geisio pontio'r bwlch yn ystod y pandemig. Er eu bod yn llwyddiannus, byddwn yn ymweld â safleoedd unwaith eto pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu codi'n llawn.

Bydd y strategaeth ar gyfer 2020 yn strategaeth tymor byr yn unig gan y credir mai ymgysylltu â'r amgylchedd a'r cyhoedd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud gwahaniaeth.

## Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

**1a. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu strategaeth Mwy nag Ailgylchu a Chynllun Atal Sbwriel Cymru yn benodol.**

Rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar Mwy nag Ailgylchu a Phlastig Untro a byddwn yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon. Yn ogystal, rydym yn aelod o Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Sbwriel.

**1b. Manteisio'n llawn ar gyfraniad gwirfoddolwyr i greu consensws ar gyfer cynyddu camau ataliol gan fusnesau a gweithio gyda'r Llywodraeth i lywio newid deddfwriaethol priodol.**

**Arolwg Cadachau Gwlyb Manwerthwyr**

Yr wythnos hon (10/2/2021), lansiodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol ganlyniadau ei harolwg o gadachau gwlyb. Yn ystod digwyddiad Glanhau Traethau Prydain y llynedd, fe ddaeth gwirfoddolwyr Cymdeithas Cadwraeth Forol o hyd i 18 o gadachau gwlyb am bob 100 metr o arfordir ar gyfartaledd. Cadachau gwlyb oedd y drydedd eitem sbwriel fwyaf cyffredin ar draethau'r DU yn 2020.

Nodwyd mai Aldi oedd yr unig fanwerthwr yn y DU sydd wedi ardystio ei holl gadachau y gellir eu fflysio yn erbyn y safon *Fine to Flush*. Mae cadachau'r manwerthwr wedi cael eu profi'n drylwyr i sicrhau eu bod diraddio yn system garthffosydd y DU.

Mae Boots, Morrison's, Tesco a Waitrose wedi ymrwymo i gael statws *Fine to Flush* erbyn mis Mehefin 2021 tra nad yw Asda, Lidl, Sainsbury's, Superdrug na Wilko wedi ymrwymo eto i weithredu erbyn dyddiad cau'r elusen yn yr haf. Mae'r manwerthwr iechyd a harddwch Superdrug wedi dweud nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i brofi am *Fine to Flush* o gwbl.

Yn galonogol, mae'r holl fanwerthwyr a arolygwyd gan yr elusen yn cynnwys nodyn 'Peidiwch â Fflysio' yn glir ar eu cadachau na ellir eu fflysio. Mae'r Gymdeithas

Cadwraeth Forol yn gobeithio y bydd manwerthwyr yn ymestyn y drefn labelu hon i'w holl eitemau brand eu hunain ar gyfer y mislif. Fodd bynnag, dim ond tri manwerthwr sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd: Co-op, Sainsbury's a Waitrose.

Fel rhan o'i harolwg, aeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol ati i asesu ymrwymiad manwerthwyr i dynnu plastig o'u cadachau gwlyb na ellir eu fflysio. Boots, Waitrose a Wilko yw'r unig fanwerthwyr sydd wedi tynnu plastig o'u cadachau, tra bod eraill wedi ymrwymo i wneud hynny erbyn diwedd y flwyddyn. Yr unig fanwerthwyr nad ydynt wedi ymrwymo i dynnu plastig o'u cadachau gwlyb na ellir eu fflysio erbyn diwedd y flwyddyn yw Aldi, ASDA, Co-op a Lidl. **(Gweler ffigur graffig 1 ar gyfer y canlyniadau)**

**Ymgyrch #StopOceanThreads**

Ym mis Tachwedd 2020, lansiodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol ymgyrch #StopOceanThreads. Bob tro rydym yn golchi ac yn gwisgo dillad, mae microffibrau yn dod oddi ar ein dillad ac yn gallu aros yn yr amgylchedd yn y pen draw. Gall un golch ryddhau dros 700,000 o ficroffibrau i ddŵr gwastraff, ac mae llawer ohonynt yn mynd i mewn i'r cefnfor wedyn.

Mae golchi dillad synthetig yn gyfrifol am 35% o ficroblastigau sylfaenol sy'n bresennol yn yr amgylchedd. Rydym yn gofyn i Lywodraethau'r DU gyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr peiriannau golchi osod hidlyddion microffibrau ym mhob peiriant domestig a masnachol newydd, yn ôl y gyfraith, erbyn 2023 a bod hidlyddion microffibrau yn cael eu hôl-osod ym mhob peiriant masnachol erbyn 2024.

I gael rhagor o wybodaeth a llofnodi'r addewid, ewch i'n gwefan yma. Hefyd, gallwch ddysgu mwy trwy wylio fideo'r ymgyrch yma.

Noder: Oherwydd y sefyllfa bresennol o safbwynt COVID-19, ni fyddwn yn cyflwyno'r ddeiseb hon i'r llywodraeth nes bod yr amser yn briodol.




*Ffigur 1: Canlyniadau Arolwg Cadachau Gwlyb 2020*

**2a. Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu graddfa, cwmpas, cydgysylltiad ac effaith digwyddiadau glanhau traethau gan wella'r broses o fapio gweithgarwch, mannau problemus a bylchau**

**Glanhau Traethau Prydain**

Eleni, roedd pandemig y Coronafeirws yn gefnlen i ddigwyddiad blynyddol Glanhau Traethau Prydain y Gymdeithas Cadwraeth Forol, a gefnogir gan y rhai sy'n chwarae Loteri Cod Post y Bobl. Wrth i'r elusen gyflwyno mesurau i sicrhau bod modd glanhau ac arolygu traethau o hyd yn unol â'r canllawiau, am y tro cyntaf erioed gofynnodd yr elusen i wirfoddolwyr gofnodi nifer y gorchuddion wyneb a menig plastig a ganfuwyd hefyd.

Mae canlyniadau digwyddiad Glanhau Traethau Prydain eleni yn dangos presenoldeb sbwriel cyfarpar diogelu personol. Er bod hyn yn peri pryder, nid yw'n annisgwyl. Daethpwyd o hyd i orchuddion wyneb a menig ar bron i 30% o'r traethau a lanhawyd gan wirfoddolwyr y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn ystod y digwyddiad wythnos o hyd. Mae data'r *Source to Sea Litter Quest* mewndirol yn dangos presenoldeb gorchuddion a menig hefyd, gyda mwy na dwy ran o dair (69%) o sesiynau casglu sbwriel yn dod o hyd i eitemau cyfarpar diogelu personol.

Yn ystod wythnos Glanhau Traethau Prydain, cafodd dros 3,000 metr o draethau Cymru eu glanhau a'u harolygu yn ystod 32 o ddigwyddiadau, ac roedd 143 o

wirfoddolwyr wedi cymryd rhan, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford. Canfuwyd 237.5 o eitemau sbwriel ar gyfartaledd fesul 100 metr o arfordir Cymru, ac roedd darnau bach o blastig yn parhau i fod y math mwyaf cyffredin o sbwriel. Canfuwyd cyfartaledd o 92.4 darn fesul 100m o draeth.







*Ffigur 2: Y pum prif eitem o sbwriel ar draethau Cymru ar sail canlyniadau GBBC 2020 (brig) a phroblem sbwriel cyfarpar diogelu personol (gwaelod)*

**Diweddariad Covid-19 ar Lanhau Traethau:**

Diweddariad Gwylio Traethau wedi'i gymryd o: www.mcsuk.org

**Digwyddiadau glanhau traethau bach, lleol, preifat sy'n dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol**

Yn dilyn y cyfyngiadau diweddaraf, mae llywodraethau ledled y DU wedi diweddaru eu canllawiau ar wirfoddoli. Gall gwirfoddoli barhau ar yr amod nad oes angen i chi hunanynysu, eich bod yn dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol a bod y trefniadau yn ddiogel o ran Covid.

Mae eich diogelwch yn hanfodol bwysig i ni. Lle y bo'n bosibl, rydym yn hapus i wirfoddolwyr gynnal digwyddiadau glanhau traethau bach, preifat gydag aelodau o'u teulu neu swigen ddynodedig, ond dylech sicrhau bob tro eich bod yn gwirio ac yn dilyn canllawiau cenedlaethol a lleol ar gyfyngiadau symud, ynghyd â'r rheolau canlynol:

1. Dilyn rheolau'r llywodraeth a rheolau'r cyngor lleol sy'n berthnasol i'ch ardal chi
2. Digwyddiad preifat lle mae nifer y gwirfoddolwyr yn cydymffurfio â chyngor eich llywodraeth, gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith
3. Dilyn rheolau'r llywodraeth a rheolau'r cyngor lleol sy'n berthnasol i'ch ardal chi bob amser o safbwynt pellter teithio
4. Archebu'r digwyddiadau hyn fel digwyddiadau preifat, caeedig er mwyn osgoi gwrthdaro â digwyddiadau glanhau traethau eraill
5. Diweddaru eich asesiad risg yn unol â'n canllawiau diogelwch newydd
6. Cadw pellter o 2m oddi wrth bobl eraill ar wahân i aelodau o'ch aelwyd
7. Defnyddio menig, teclynnau codi sbwriel (os oes rhai gennych chi) a golchi eich dwylo

Er mwyn helpu, rydym wedi diweddaru ein holl adnoddau gan gynnwys y canllawiau iechyd a diogelwch a'r wybodaeth ar ffurf Holi ac Ateb. Cofiwch edrych ar yr adnoddau hyn a darllen cyngor y llywodraeth cyn dechrau.

**2b. Cefnogi camau gweithredu a arweinir gan y gymuned fel rhwydwaith Cymunedau Di-blastig SAS, Gwarcheidwaid y Cefnfor**

Gweler 2a.

**2d. Datblygu llwyddiant mentrau sy'n canolbwyntio ar ofod e.e., mynd i'r afael â'r cyflenwad sbwriel drwy ddalgylchoedd; drwy gysylltu gweithredu cymunedol ar Lwybr Arfordir Cymru.**

Gweler 2a.

**3a. Parhau i ddatblygu ac ehangu rhaglenni addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc**

Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn datblygu cyfres o adnoddau ysgolion uwchradd mewn cydweithrediad â Cadwch Gymru'n Daclus. Maent yn cynnwys sawl sesiwn sy'n canolbwyntio ar sbwriel morol, ynghyd â sesiynau sy'n edrych ar fygythiadau eraill i'n cefnfor. Y bwriad oedd cynnal sesiynau peilot mewn ysgolion yn fuan, ond erbyn hyn disgwylir i'r ddarpariaeth fynd ar-lein oherwydd Covid-19.

Rydym wedi datblygu gweminarau addysg *'Cool Seas Explorers'* gydol 2020 hefyd. Er bod ymweliadau ysgol wedi cael eu hatal oherwydd y pandemig, rydym yn cynnal gwersi byw ar-lein erbyn hyn, ac mae'n bosibl eu gwylio wedyn ar ein sianel YouTube. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Ym mis Medi 2020 lansiwyd ein menter *'Source to Sea'* ochr yn ochr â 'Glannau Traethau Prydain' ac aethom ati i gynnal gweminarau addysgol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ar-lein. Hefyd, aethom ati i ddatblygu ein Pecyn Adnoddau Source to Sea <https://eur02.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fwww.mcsuk.org%2Fmedia%2Fgbbc-sourcetosea-education-resource.pdf%3Ffbclid%3DIwAR00CnMdyFLTT3L92GiXJuz6SUulfXaq102rjZQI2wkE2-FgK5PvDwuuxL4&data=04%7C01%7Cffion.mitchell%40mcsuk.org%7Cd09aa90c0d

544c596b9608d8ce8bb347%7Ce9bc0344e0a2455da63a3bd02b6ee732%7C0%7C0%7C637486446681402732%7CUnknown%7CTWFpbGZsb3d8eyJWIjoiMC4wLjAwMDAiLCJQIjoiV2luMzIiLCJBTiI6Ik1haWwiLCJXVCI6Mn0%3D%7C1000&sdata=IfLWYhDAiMk65e5pYPT0tbfLi5Uvzd7XU%2BCthi%2BPSI8%3D&reserved=0> sy'n llawn gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Nod y fenter yw cysylltu ysgolion â'r cefnfor a phroblem sbwriel morol, er gwaethaf eu hagosrwydd at yr arfordir.

Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom gymryd rhan yn Uwchgynhadledd Pobl Ifanc ar yr Hinsawdd, digwyddiad wythnos o hyd sy'n dod ynghyd ag ysgolion o bob rhan o'r DU. Fe wnaethom gyflwyno cyfres o wersi ar-lein, o'r enw Hinsawdd, y môr a fi. Roedd y pynciau yn cysylltu llygredd plastig, PFAS a microffibrau â newid yn yr hinsawdd a'r cefnfor. Recordiwyd pob un o'r sesiynau ac maent ar gael i'w gwylio trwy wefan Transform Our World.

Ar hyn o bryd rydym yn gwerthuso ein holl adnoddau addysg, a byddwn yn lansio llawer o adnoddau newydd ac adnoddau wedi'u hailddatblygu yn 2021.

**3b. Canolbwyntio ar fentrau proffil uchel, penodedig sy'n cael llawer o effaith - Ail-lenwi Cymru, Stopio'r Bloc, Digwyddiadau Glanhau Traethau 2 Funud**

Gweler 2a.

**4a. Hyrwyddo negeseuon "Moroedd Glân Cymru" cyffredinol**

**Ymgyrch bonion sigaréts y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac ASH Cymru**

Ddechrau'r flwyddyn hon, lansiodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol ymgyrch ar y cyd yn galw am wahardd hidlyddion sigaréts plastig. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg am y mater hwn a gafodd gymorth ychwanegol gan Cadwch Gymru'n Daclus. Fe aeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol ati i ysgrifennu at Lesley Griffiths a chyfarfod â hi er mwyn trafod yr ymgyrch.

Sigaréts yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o sbwriel yng Nghymru ac maent yn peri risg amgylcheddol enfawr, yn aml yn cyrraedd dyfrffyrdd a'r cefnfor yn y pen draw ar ôl cael eu golchi i lawr draeniau. Mae pob bonyn sigarét yn rhyddhau miloedd o gemegau a microplastigau i'r amgylchedd ac yn cymryd hyd at 14 mlynedd i ddiraddio.




*Ffigur 3: Casglu sbwriel stympiau sigaréts yn ystod GBBC 2020*

**4b. Cyfrannu astudiaethau achos at gylchlythyr a gwefan Moroedd Glân Cymru**

Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol wedi cyfrannu astudiaethau achos at Bartneriaeth Moroedd Glân Cymru; roedd rhifyn y flwyddyn newydd o gylchlythyr Moroedd Glân Cymru yn cynnwys y rhai diweddaraf. Am rai enghreifftiau o astudiaethau achos a gyfrannwyd, gweler yr ymgyrchoedd a'r prosiectau a nodir uchod.

**4c. Gosod mesurau cyffredin ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau glanhau traethau**

Gweler 2a.

**Effaith Covid-19 ar y Gymdeithas Cadwraeth Forol**

Mae COVID-19, a'r camau dilynol a gymerwyd gan y llywodraeth, wedi effeithio ar y rhaglenni y mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn gallu eu cyflwyno, dulliau ymgysylltu rhanddeiliaid, ein gallu i godi arian a sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd. Felly, rydym wedi addasu ein rhaglen gweithgareddau a'n methodoleg, er enghraifft trwy ganolbwyntio mwy ar weithgareddau ar-lein a'n gallu i'w darparu.

## Cadwch Gymru'n Daclus

**Addysg amgylcheddol fel rhan o ddysgu o bell**

Yn 2020, symudodd ein rhaglen Eco-ysgolion Cymru o leoliad traddodiadol mewn ysgolion i nifer o blatfformau digidol a chyfleoedd dysgu newydd.

Fe wnaethom addasu i sicrhau bod addysg amgylcheddol yn parhau a'i bod yn rhan o ddysgu o bell yng Nghymru. Aethom ati i greu modiwlau hyfforddi rhithwir ac ystod eang o adnoddau newydd sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent ar gael i'w lawrlwytho am ddim o'n gwefan ac o wefan Hwb Llywodraeth Cymru.

Hefyd, aethom ati i drawsnewid ein dulliau rhyngweithio â myfyrwyr drwy ein heriau Eco-Ysgolion yn y Cartref wythnosol a **Heriau Eco-Ysgolion Adref** a Gwersyll Haf Taclus, gan gwmpasu popeth o 'Digon o Bysgod yn y Môr', 'Dŵr Bendigedig' a 'Planed Heb Sbwriel'.

Parhau wnaeth ein cystadleuaeth Gohebwyr Ifanc ar gyfer yr Amgylchedd er gwaethaf y pandemig, gan roi cyfle i lawer o fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol yn ymwneud â sbwriel. Cafodd disgyblion o Ysgol Gynradd Parc y Gorllewin ym Mhorthcawl ac Ysgol Clywedog yn Wrecsam lwyddiant byd-eang, gan ennill gwobrau cyntaf yng nghystadleuaeth ryngwladol 2020.

Thema cystadleuaeth Gohebwyr Ifanc ar gyfer yr Amgylchedd eleni yw 'lleihau gwastraff plastig', ac mae rhai prosiectau diddorol ar y gweill, gan gynnwys cydweithio ag ysgolion yn Sbaen a Beirut. Mae sesiynau cymorth rhithwir yn cael eu cynnig i ysgolion sy'n cymryd rhan.

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ni allai llawer o ysgolion a gymerodd ran yn y prosiect Llai o Sbwriel y llynedd gwblhau'r gweithgareddau roeddent wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, llwyddodd ysgolion i gynnal detholiad o weithdai, tasgau ymchwil a digwyddiadau glanhau cymunedol.

Mae heriau a gweithgareddau Llai o Sbwriel gartref ar gyfer swigod dosbarth wedi'u creu ar gyfer ysgolion sy'n cymryd rhan eleni.

**Cefnogi camau gweithredu ymarferol**

Er mwyn cadw ein staff a'n gwirfoddolwyr yn ddiogel, caewyd swyddfeydd Cadwch Gymru'n Daclus ganol mis Mawrth 2020 a bu'n rhaid gohirio'r holl waith ymarferol sy'n cynorthwyo cymunedau i ofalu am eu hamgylcheddau lleol.

Fodd bynnag, camodd ein Hyrwyddwyr Sbwriel, ein grwpiau cymunedol ac ymwelwyr â'n Hybiau Casglu Sbwriel (pan oeddent ar agor) i'r adwy i ofalu am eu cymunedau. Rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr, aethant ati i neilltuo dros 14,000 o oriau i ofalu am ein hamgylchedd, gan lwyddo i gasglu 17,000 o fagiau o sbwriel a deunydd ailgylchu - sy'n syfrdanol!

Ar ôl gohirio Gwanwyn Glân Cymru ym mis Mawrth, roeddem wrth ein bodd â'r gefnogaeth a gafodd Hydref Glân Cymru ym mis Medi. Cymerodd dros 1,100 o wirfoddolwyr ran mewn bron i 200 o ddigwyddiadau glanhau a oedd yn cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol. Diolch i arolygon ar ôl yr ymgyrchoedd, rydym yn gwybod bod llawer o'r arwyr sbwriel wedi gwirfoddoli gyda ni am y tro cyntaf erioed.

Fel rhan o Hydref Glân Cymru, anogwyd gwirfoddolwyr arfordirol i gymryd rhan yn y digwyddiad Glanhau Traethau Prydain a drefnwyd gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol.

**Gwobrau Arfordir Cymru – gohirio dathliadau**

Yn dilyn cytundeb â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol, penderfynwyd peidio â hyrwyddo ein traethau a'n marinas arobryn.

Pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio, roedd cyfle i awdurdodau lleol a sefydliadau rheoli eraill chwifio eu baneri ac ymgymryd â gweithgareddau cyhoeddusrwydd lleol os gallent fodloni'r meini prawf ac agor yn ddiogel. Fodd bynnag, dim ond Marina Penarth a ddewisodd wneud hyn.

Rydym yn gobeithio gweithio gyda Croeso Cymru i frolio ein harfordir arobryn ym mis Mai 2021.

**Y diweddaraf am bolisi ac ymchwil**

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, nid oedd modd i ni gwblhau arolygon glendid strydoedd LEAMS. Yn hytrach, defnyddiwyd 2020 gennym fel cyfle i adolygu'r arolwg er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben ar gyfer monitro a gwerthuso Cynllun Atal Sbwriel Cymru.

Nid oedd modd i ni allu dechrau'r cynllun peilot newid ymddygiad sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu ym Mlaenau Gwent. Y gobaith yw lansio'r cynllun peilot (yn amodol ar gyfyngiadau) ym mis Mai 2021.

Ym mis Awst, aethom ati i gyhoeddi **maniffesto 2021-2025** yr hoffem ei weld yn cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru nesaf. Mae'n cynnwys gofynion ar gyfer lleihau sbwriel ac atal plastig, grymuso pobl ifanc i weithredu a diogelu ein mannau gwyrdd a glas.

Cyflwynwyd ymateb gennym i'r Ymgynghoriad ar 'Leihau Plastig untro' yng Nghymru, ac aethom ati i lunio dogfen 'Cam 2' i fod yn sylfaen i drafodaeth ar gyfer ystod o fesurau polisi i leihau'r defnydd o blastig a hyrwyddo'r agenda atgyweirio dros y pum mlynedd nesaf.

Rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon cyntaf Cymru, ac rydym wedi cefnogi ymdrechion i gysoni cynigion â Chynllun Gweithredu Sbwriel Morol a gwaith Partneriaeth Moroedd Glân Cymru. Rydym yn parhau i fod yn aelod o Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Sbwriel ac is-grwpiau cysylltiedig megis casglu a monitro data. O ganlyniad, rydym yn gweithio ledled y DU ar faterion casglu a monitro data ac yn parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y maes hwn.

**Dim sbwriel ar ôl y cyfnod clo**

Wrth i lefelau sbwriel gynyddu yn sgil llacio'r cyfyngiadau symud, roedd y cyfryngau yn awyddus i glywed barn Cadwch Gymru'n Daclus. Roedd aelodau'r tîm yn ymddangos yn rheolaidd ar raglenni BBC Newsround, BBC Radio, BBC Cymru ac S4C gan wneud sylwadau a rhoi cyngor ar y pwnc, y canlyniadau ac atebion.

Gydol yr haf, buom yn hyrwyddo'r neges 'Ewch â'ch sbwriel adref' ar ein holl sianeli digidol ac aethom ati i ddarparu adnoddau cyfryngau cymdeithasol di-dâl **ar ein gwefan** - #DimSbwrielArÔlyCyfnodClo.

Rydym yn gweithio gyda llawer o randdeiliaid a phartneriaid i ddatblygu dull gweithredu a neges gyson i fynd i'r afael â rhai o'r problemau cyson o safbwynt ansawdd yr amgylchedd lleol, yn ogystal ag ymgyrch ehangach i roi mwy o sylw i atal sbwriel gyda Llywodraeth Cymru.